Rydym eisiau i blant fwyta'n dda yn yr ysgol

Cost y pryd Babanod a phlant Iau £2.85 o 25/04/2022.
A fyddech cystal â thalu arian i mewn i'ch cyfrif Parent Pay bob ddydd Llun ar gyfer yr wythnos i ddod.

A oes gennych hawl i ginio ysgol am ddim?

ALLWCH CHI ARBED £500 Y FLWYDDYN AR GYFER BOB PLENTYN

Ar gyfer bob disgybl sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Ysgol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r plant hynny. Felly os oes gennych hawl, ymgeisiwch nawr.

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol neu budd-dal arall a dymunech wneud cais, argraffwch a chwblhewch y Ffurflen Gais Prydau Ysgol am Ddim arwww.conwy.gov.uk/freeschoolmeals a'i anfon at –
Gwasanaethau Asesu Refeniw a Budd-Daliadau, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN.

Ydych chi angen cymorth i wybod mwy am hawlio'r budd-daliadau y mae gennych hawl iddynt?

Ffoniwch Hawliau Lles 01492 576605.
Dydd Llun – Dydd Iau 9am tan 5pm a dydd Gwener 9am tan 4.45pm
Mae cymorth ar gael os byddwch yn dechrau gweithio, os oes newid yn eich amgylchiadau personol, ac i sicrhau nad ydych yn colli consesiynau a gostyngiadau er enghraifft Cynllun Cymorth Dŵr; Gostyngiad Cartref Cynnes; Talebau Cychwyn Iach.

Gwybodaeth am Alergenau
Mae gwybodaeth ar gael yng nghegin ysgol eich plentyn ar gyfer pob eitem ar y fwydlen sy'n cynnwys unrhyw un o'r 14 alergen hyn fel cynhwysion.

Dyma'r 14 Alergen:-

1. Grawnfwydydd sy'n cynnwys Glwten
2. Cramenogion
3. Wyau
4. Pysgod
5. Cnau Mwnci
6. Soia
7. Llaeth
8. Cnau
9. Seleri
10. Mwstard
11. Hadau Sesame
12. Sylffwr Deuocsid.
13. Lwpin
14. Molysgiaid

Neges i chi.

Rhannwch eich "Stori Cinio Ysgol" trwy anfon e-bost at arlwyaeth@conwy.gov.uk neu trwy wefan Cyngor Conwy www.conwy.gov.uk chwiliwch am "Bwyd mewn Ysgolion".

Mae'r graff hwn yn dangos y bwyd a'r maeth a ddarperir yn y fwydlen ysgol gynradd tair wythnos a'r llinell sy'n dangos safon Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a maeth.